

ADRODDIAD GWYBODAETH GAN BENNAETH CYNLLUNIO A
GWARCHOD Y CYHOEDD

ASTUDIAETH GWEITHREDIAD PWYLLGORAU CYNLLUNIO CYMRU

1 PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1 Rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Cynllunio am brosiect ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i weithrediad Pwyllgorau Cynllunio Cymru. Gwybodaeth yn unig yw diben yr adroddiad ar hyn o bryd.

2 CEFNDIR

- 2.1 Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno Papur Gwyn ar ddiwedd 2013 am weithrediad system gynllunio Cymru yn y dyfodol.
- 2.2 Fel rhan o'r broses maent wedi gofyn i gorff annibynnol archwilio ac ymchwilio gweithrediad Pwyllgorau Cynllunio Cymru i benderfynu os oes cysylltiad rhwng effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd a maint y pwyllgor.
- 2.3 Ar hyn o bryd mae'r ymgynghorwyr Fortismere Associates, gyda chefnogaeth Arup wedi'u hapwyntio i wneud yr ymchwil. Amcanion yr ymchwil yw:
- Penderfynu os oes cysylltiad rhwng effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, maint pwyllgor a chysondeb gwneud penderfyniadau;
 - Archwilio maint a ffurfiant Pwyllgorau Cynllunio;
 - Ymchwilio'r cysylltiad rhwng y broses o ddatblygu cynlluniau a gwneud penderfyniadau am gynigion datblygu;
 - Ystyried arferion da dulliau sy'n cael eu defnyddio yng nghyfarfodydd Pwyllgorau Cynllunio, gan gynnwys hawliau siarad yr unigolion a mesurau i sicrhau cysondeb wrth wneud penderfyniadau;
 - Ystyried cynigion ar gyfer cynllun cenedlaethol dirprwyo pwerau gwneud penderfyniadau, gan gynnwys lleiafswm y gofynion;
 - Ystyried hyfforddiant gorfodol i aelodau Pwyllgorau Cynllunio, gan gynnwys dull gweithredu oni fydd gofynion hyfforddiant yn cael eu cwblhau gan unigolion; ac
 - Ystyried cod ymddygiad ar gyfer aelodau Pwyllgorau Cynllunio a'r swyddogion.

- 2.3 Fel rhan o arolwg cyfredol prosesau cynllunio yn Sir Ddinbych, bwriad Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd oedd edrych ar faint ein Pwyllgor Cynllunio, gan arolygu ei ddull gweithredu a rhoi unrhyw newidiadau ar waith fel bo'r angen. Roedd hyn yn adlewyrchu adborth diweddar rhai o'r Aelodau. Yn bennaf, penderfynwyd ei bod yn amser ymchwilio defnyddio mwy o dechnoleg yng nghyflwyniad a gweithrediad y Pwyllgor Cynllunio ac archwilio buddiannau Pwyllgor llai neu effeithiau i'r gwrthwyneb.
- 2.4 Byddai'n ddoeth aros i weld canfyddiadau'r ymchwil annibynnol cyn i CSDd newid maint eu Pwyllgor a'u dull gweithredu. Bydd swyddogion yn cyfrannu at yr ymchwil ac yn darparu unrhyw wybodaeth sydd ei angen i'r ymchwilwyr. Efallai y bydd angen i Aelodau ddarparu adborth fel bo'r angen a gall Swyddogion ddarparu unrhyw gefnogaeth angenrheidiol i'r Aelodau pan fydd angen. Derbyniodd Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio lythyr gan CLILC am yr ymchwil hwn.
- 2.5 Mae Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yn cynnig ein bod yn gadael i'r ymgynghorwyr gyflwyno eu canfyddiadau cychwynnol yn eu Cynhadledd Flynyddol ar 5 Mehefin 2013. Bydd cyfle i ddau Aelod o bob Awdurdod fynychu'r gynhadledd am ddim a bydd Swyddogion yn darparu mwy o wybodaeth am hyn yn ei dro.

3 ARGYMHELLION

- 3.1 Aelodau i nodi cynnwys yr adroddiad gwybodaeth a gadael i'r Swyddogion adborth unrhyw wybodaeth angenrheidiol am weithrediad ein Pwyllgor Cynllunio i'r ymgynghorwyr annibynnol.